

## Etholiadau Lleol yng Nghymru a Lloegr

# Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

## Rhan 2b o 6 – Sefyll fel ymgeisydd dros blaid

Rhagfyr 2016

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i etholiadau cynghorau dosbarth, bwrdeistref, sir, bwrdeistref sirol ac unedol. Nid yw'n berthnasol i etholiadau plwyf a chymuned, etholiadau meiri nac etholiadau Awdurdod Llundain Fwyaf. Gellir cael gfael ar ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr holl etholiadau a gynhelir yng Nghymru ac yn Lloegr drwy ein gwefan:

<http://www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents>

# Cynnwys

|  |           |
|--|-----------|
| <b>Gwybodaeth hanfodol .....</b>                           | <b>2</b>  |
| Llenwi eich papurau enwebu.....                            | 2         |
| Y ffurflen enwebu.....                                     | 4         |
| Eich cydsyniad i'r enwebu.....                             | 6         |
| Tystysgrif awdurdodi.....                                  | 7         |
| Cais am gael defnyddio arwyddlun ar bapur pleidleisio .... | 7         |
| Cyflwyno'ch papurau enwebu.....                            | 8         |
| Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau?.....           | 10        |
| Cael eich enwebu'n ddilys mewn mwy nag un ward.....        | 11        |
| Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill .....            | 11        |
| Ai etholiad a ymleddir ynteu etholiad diwrthwynebiad?...   | 11        |
| Penodi eich asiant etholiad ac asiantiaid eraill .....     | 12        |
| Pwy gaiff fod yn asiant etholiad? .....                    | 12        |
| Penodi asiant etholiad .....                               | 13        |
| Diddymu penodiad asiant etholiad.....                      | 14        |
| Penodi asiantiaid eraill.....                              | 14        |
| Marwolaeth ymgeisydd.....                                  | 15        |
| <b>Gwybodaeth atodol .....</b>                             | <b>16</b> |
| Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin.....                     | 16        |
| Llofnodion llofnodwyr.....                                 | 17        |
| Marwolaeth ymgeisydd.....                                  | 18        |

# 2

## Gwybodaeth hanfodol

Yn yr adran hon o'r ddogfen, ceir ein canllawiau ar gyfer sefyll fel ymgeisydd ar ran plaid mewn etholiad dosbarth, bwrdeistref, sir, bwrdeistref sirol neu awdurdod unedol yng Nghymru neu yn Lloegr.

Mae gwybodaeth atodol, nad yw efallai ond yn berthnasol i rai ymgeiswyr, wedi'i chynnwys yng nghefn y ddogfen hon. Mae'r canllawiau atodol hyn i'w gweld hefyd drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn Lleol os oes gennych gwestiwn. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld yn ein [Dogfen trosolwg](#).

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Byddwn yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'dylech/dylai' i argymhell ffordd o weithredu, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu rheoleiddiol..

Mae'r dyddiadau cau yn y ddogfen hon yn rhai generig. Rydym wedi cyhoeddi [amserlen etholiad generig ar ein gwefan](#). Ar gyfer unrhyw is-etholiad byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Ar gyfer yr etholiadau ddydd Iau 4 Mai 2017, rydym wedi cyhoeddi [amserlen etholiadol](#), gallwch lawrlwytho o'n gwefan.

## Llenwi eich papurau enwebu

1.1 Er mwyn cael eich enwebu'n ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru neu yn Lloegr, bydd angen ichi gyflwyno set gyflawn o bapurau enwebu i'r man a bennir gan Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Y gyfraith sy'n pennu'r amser cau hwn ac nid oes modd ei newid am unrhyw reswm. Bydd yr hysbysiad swyddogol ynglŷn â'r etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau lleol yn pennu dyddiad dechrau'r cyfnod pan gewch gyflwyno papurau enwebu, a bydd hefyd yn pennu pa bryd ac ymhle y bydd angen eu cyflwyno.

1.2 Rhaid ichi gyflwyno dau bapur enwebu er mwyn i'ch enwebiad fod yn ddilys:

- y ffurflen enwebu
- eich cydsyniad i'r enwebu

1.3 Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, bydd rhaid bod y blaid wedi ei chofrestru ar gofrestr pleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn <http://search.electoralcommission.org.uk> ac wedi'i rhestru fel ei bod yn sefyll ymgeiswyr yng Nghymru, a bydd angen i chi gyflwyno'r canlynol:

- tystysgrif yn rhoi caniatâd ichi ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio ([a elwir yn dystysgrif awdurdodi](#)). I gael rhagor o fanylion am y dystysgrif awdurdodi, gweler paragraff **1.13**.
- cais ysgrifenedig am gael defnyddio un o arwyddluniau'r blaid (os ydych chi am i un o'r rheini ymddangos ar y papur pleidleisio). I gael gwybod rhagor am [y ffurflen gais am arwyddlun](#) gweler paragraff **1.17**.

1.4 Mae'r papurau enwebu ar gael gan y swyddfa etholiadau leol. Mae'r manylion cysylltu ar ein gwefan, [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk). Neu, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi set o [bapurau enwebu](#) y gallech eu defnyddio.

# 4

1.5 Os na allwch chi, eich asiant neu rywun y medrwch ymddiried ynddo, lenwi'r ffurflen enwebu, gall y Swyddog Canlyniadau helpu drwy baratoi'r ffurflen ichi ei llofnodi.

1.6 Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau yn gallu cynnig gwirio'ch papurau enwebu'n answyddogol ar ôl ichi eu llenwi ond cyn ichi eu cyflwyno. Dylech ofyn i'r Swyddog Canlyniadau os ydynt yn bwriadu cynnig gwneud gwiriadau anffurfiol.

1.7 Sylwch ei bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth a rowch chi ar eich papurau enwebu fod yn wir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae'n drosedd rhoi datganiad anwir ar eich papurau enwebu. Os rhowch chi ddatganiad anwir, fe allai hynny olygu eich bod wedi'ch ethol yn annilys, ac fe allai hefyd arwain at ddirwy amhenodol os cewch eich dyfarnu'n euog ar ddiad a / neu gyfnod o garchar.

## Y ffurflen enwebu

1.8 Yn ôl y gyfraith, rhaid llenwi **ffurflen enwebu** yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rhaid i'r ffurflen gynnwys;

- **Eich enw llawn.** Mae hyn yn golygu eich cyfenw a'ch enwau eraill yn llawn. Os defnyddiwch chi lythrennau cyntaf eich enw'n unig, fe allai hynny olygu bod eich papur enwebu'n cael ei wrthod. Peidiwch ychwaith â defnyddio rhagddodiaid megis Mr, Mrs, Dr neu Cyng fel rhan o'ch enw. Mae'r un peth yn wir am ôl-ddodiaid. Serch hynny, os oes gennych chi deitl, fe gewch ddefnyddio hwn yn rhan o'ch enw llawn. Er enghraifft, os eich enw go iawn yw Joseph Smith ond eich teitl etifeddol yw Joseph Avon, cewch ddefnyddio'r enw Joseph Avon yn enw llawn.
- Eich cyfeiriad cartref llawn. Rhaid i chi:
  - a) roi eich cyfeiriad cartref llawn
  - b). rhaid iddo beidio â chynnwys talfyriadau
  - c) rhaid mai'r cyfeiriad hwnnw yw eich cyfeiriad cartref presennol
  - d) rhaid iddo beidio â bod yn gyfeiriad busnes (heblaw eich bod chi'n cadw busnes gartref)

Dylech ysgrifennu eich enw, eich cyfeiriad ac unrhyw ddisgrifiad ar y ffurflen enwebu **cyn** ichi ofyn i lofnodwyr lofnodi'r ffurflen.

Heblaw eich bod yn dibynnu ar y ffaith eich bod wedi byw yn yr ardal drwy gydol y 12 mis diwethaf neu wedi'ch cofrestru'n etholwr yn ardal yr awdurdod lleol er mwyn bod yn gymwys, nid oes yn rhaid i'ch cyfeiriad cartref fod yn yr awdurdod lleol lle rydych chi'n dymuno sefyll.

- **Llofnodion 10 etholwr cofrestredig** (a elwir yn llofnodwyr) o'r ward. Rhaid i'ch llofnodwyr fod ar y gofrestr etholiadol sydd mewn grym ar y 25<sup>ain</sup> diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Am fwy o wybodaeth, gweler paragraff **1.71**.

1.9 Cewch ddewis defnyddio'r canlynol:

- **Enw a ddefnyddir gennych yn gyffredin** - Os byddwch fel rheol yn defnyddio enw sy'n wahanol i'ch enw go iawn a'ch bod am i'r enw hwn ymddangos ar y papur pleidleisio, bydd angen ichi ddweud hyn ar y ffurflen enwebu. Ceir rhagor o fanylion am hyn ym mharagraff **1.63**
- **Disgrifiad** - cewch naill ai ofyn am gael enw'r blaid fel y mae wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn neu un o'r disgrifiadau a gofrestrwyd gan y blaid, ar y papur pleidleisio o dan eich enw. Os ydych chi'n ymgeisydd yng Nghymru, cewch naill ai ddefnyddio'r fersiwn Saesneg, y fersiwn Gymraeg neu ddwy fersiwn enw'r blaid neu'r disgrifiad ohoni, cyn belled â bod y rheini wedi'u cofrestru gyda ni.

Os ydych chi am ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad ohoni, rhaid ichi gyflwyno gyda'ch papurau enwebu eraill dystysgrif sy'n dangos bod gennych ganiatâd i ddefnyddio enw'r blaid neu'r disgrifiad ohoni (a elwir yn dystysgrif awdurdodi). Rhaid i'r dystysgrif gael ei darparu gan Swyddog Enwebu'r blaid gofrestredig (neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran) a rhaid i honno fod yn llaw'r Swyddog Canlyniadau erbyn dyddiad cau'r enwebiadau, h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Mae rhagor o wybodaeth am y dystysgrif i'w gweld ym mharagraff **1.13**.

I gael gwybod sut mae cael gafael ar y gofrestr etholiadol, gweler:

- [Rhan 4: Yr Ymgyrch](#)

Mae enwau cofrestredig y pleidiau a'r disgrifiadau ohonynt a gofrestrwyd i'w gweld ar ein [cofrestr ar-lein](#):

Rhestrir cyfieithiadau Cymraeg o enwau'r pleidiau ar y wefan o dan 'enw arall' ac mae cyfieithiadau o'r disgrifiadau wedi'u rhestru ar y dde i'r disgrifiad o dan 'cyfieithiad(au)'.

# 6

Os ydych chi'n sefyll dros ddwy blaid neu dros fwy na dwy, cewch ddefnyddio cyd-ddisgrifiad, fel y'i cofrestrwyd gyda'r Comisiwn. Os felly, bydd angen ichi gael caniatâd gan Swyddog Enwebu pob un o'r pleidiau a gofrestrwyd (neu gan bobl sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan).

Dylech fod yn arbennig o ofalus wrth lenwi'r maes disgrifiadau ar y ffurflen enwebu. Rhaid i enw'r blaid/y disgrifiad ohoni a ddefnyddir ar y papur enwebu gyfateb yn union i enw'r blaid/y disgrifiad ohoni sydd ar y [gofrestr ar-lein y Comisiwn](#) sy'n rhestru pleidiau gwleidyddol. Os nad yw, fe wrthodir y papur enwebu yn ei grynswth.

Sylwch nad oes yn rhaid ichi ddefnyddio disgrifiad. Cewch ddewis peidio â chael disgrifiad o gwbl, drwy adael maes disgrifiad y ffurflen yn wag.

Os ydych chi am sefyll fel ymgeisydd annibynnol mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn: [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#)

## Eich cydsyniad i'r enwebu

1.10 Rhaid i chi hefyd gydsynio'n ffurfiol i'ch enwebiad drwy nodi hynny'n ysgrifenedig. Mae cynnwys y ffurflen [cydsynio i'r enwebu](#) yn cael ei osod gan y gyfraith a rhaid dychwelyd y ffurflen gyfan er mwyn i'ch enwebiad fod yn ddilys. Ar y [ffurflen](#), gofynnir ichi ddatgan eich bod yn gymwys ac nad ydych wedi'ch gwahardd rhag sefyll. Rhaid ichi hefyd roi'ch dyddiad geni.

1.11 Rhaid ichi fodloni o leiaf un o'r cymwysterau ar gyfer sefyll etholiad, fel yr esbonnir yn [Rhan 1: Allwch chi sefyll am etholiad?](#) Ar y ffurflen cydsynio i'r enwebu, dylech nodi pob cymhwyster sy'n berthnasol.

1.12 Ni chewch lofnodi'r ffurflen gydsynio fwy na mis calendr cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch papurau enwebu. Rhaid ichi gael tyst i'ch llofnod, a rhaid i'r tyst lofnodi'r ffurflen a rhoi ei enw llawn a'i gyfeiriad. Caiff unrhyw un fod yn dyst i'r cydsynio i'r enwebu.

## Tystysgrif awdurdodi

1.13 Bydd pleidiau gwleidyddol yn awdurdodi ymgeiswyr i sefyll drostynt drwy roi tystysgrif awdurdodi iddynt. Rhaid i honno ddatgan y caiff yr ymgeisydd a enwyd sefyll ar eu rhan a chaniatáu iddynt ddefnyddio un o'r canlynol:

- union enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd gyda'r Comisiwn
- un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid
- cewch naill ai ddewis enw'r blaid a gofrestrwyd neu un o'r disgrifiadau ohoni a gofrestrwyd.

1.14 Dylai'r Swyddog Enwebu (neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran) fod yn arbennig o ofalus wrth lenwi'r dystysgrif awdurdodi. Os bydd y dystysgrif yn awdurdodi'n benodol enw plaid arbennig/disgrifiad arbennig ohoni ac nad yw hwnnw'n cyfateb i enw'r blaid/y disgrifiad ohoni sydd ar y papur enwebu, bydd yr enwebiad yn annilys yn ei grynswth.

1.15 Rhaid i'r dystysgrif gael ei hawdurdodi gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid wleidyddol neu gan rywun a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i weithredu ar ei ran.

1.16 Os ydych yn sefyll ar ran dwy blaid ar y cyd neu fwy, bydd yn rhaid i chi gael tystysgrif awdurdodi gan Swyddog Enwebu'r ddwy blaid gofrestrdig (neu bobl wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan). Mae disgrifiadau ar y cyd wedi eu rhestru ar [gofrestr y Comisiwn](#) o bleidiau gwleidyddol ar y dudalen gofrestru ar gyfer y pleidiau gwleidyddol.

## Cais am gael defnyddio arwyddlun ar bapur pleidleisio

1.17 Os ydych chi wedi cael caniatâd plaid wleidyddol i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ohoni ar y papur pleidleisio, cewch ofyn hefyd am gael argraffu un o arwyddluniau swyddogol y blaid ar y papur pleidleisio wrth ymyl eich enw.

1.18 Rhaid ichi wneud y cais am gael arwyddlun yn ysgrifenedig a'i drosglwyddo i'r Swyddog Canlyniadau. Rhaid i'r

Gall plaid gofrestru hyd at dri arwyddlun. Efallai y byddwch am wirio gyda'ch plaid (e.e. y Swyddog Enwebu neu rywun sydd ag awdurdod i weithredu ar eu rhan) o rna pa arwyddlun i'w ddefnyddio. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais am arwyddlun cyfredol sydd wedi'i gofrestru gyda'r modd Comisiwn ar y gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol.

cais fod yn llaw'r Swyddog Canlyniadau erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi ffurflen ichi ei defnyddio i wneud y cais hwn, neu fe allwch ddefnyddio'r [ffurflen gais am arwyddlun](#) a gyhoeddir gan y Comisiwn.

1.19 Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol a'r disgrifiad o'r arwyddlun a ddefnyddir, fel y'u rhestrir ar [gofrestr ar-lein y Comisiwn](#) sy'n rhestru pleidiau gwleidyddol. Ni ellir amrywio arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw ffordd.

1.20 Caiff ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran dwy blaid gofrestedig neu dros fwy na dwy ac sy'n defnyddio cyd-ddisgrifiad ohonynt, ddefnyddio arwyddlun sydd wedi'i chofrestru gan un o'r ddwy blaid berthnasol. Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo fod yn llaw'r Swyddog Canlyniadau erbyn cau'r enwebiadau h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi ffurflen ichi ei defnyddio i wneud y cais hwn, neu fe allwch ddefnyddio'r [ffurflen gais am arwyddlun](#) a gyhoeddir gan y Comisiwn. Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol sydd wedi cofrestru'r arwyddlun y dymunwch ei ddefnyddio a disgrifiad o'r arwyddlun a ddefnyddir, fel y'u rhestrir ar [gofrestr ar-lein y Comisiwn](#) sy'n rhestru pleidiau gwleidyddol.

## Cyflwyno'ch papurau enwebu

1.21 Rhaid cyflwyno pob papur enwebu, gan gynnwys y ffurflen cydsynio i'r enwebu, y dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gais am arwyddlun, i'r man a bennir ar yr hysbysiad o etholiad erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod eich papurau enwebu wedi eu cyflenwi yn y dull cywir ac erbyn y dyddiad cau gofynnol. Rydym yn argymhell eich bod chi, eich asiant, neu rywun yr ydych yn ymddiried ynddo'n eu trosglwyddo'n bersonol, er mwyn ichi fod yn siŵr eu bod wedi cyrraedd y Swyddog Canlyniadau mewn pryd.

1.22 Rhaid i'ch ffurflen enwebu a chydsyniad enwebu gael eu cyflenwi â llaw ac ni chewch eu cyflwyno drwy'r post, ffacs, e-bost neu ddull electronig arall. Gellir cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gais arwyddlun drwy'r post ond ni chânt eu cyflwyno drwy ffacs, e-bost neu ddull electronig arall.

- 1.23 Mae'n rhaid cyflwyno **fersiwn gwreiddiol** pob papur. Byddai ffurflen cydsyniad i enwebu sydd wedi'i anfon fel atodiad i e-bost er mwyn iddo gael ei argraffu, er enghraifft, yn ei wneud yn 'ddogfen gopi' ac nid y ddogfen wreiddiol.
- 1.24 Dylech gyflwyno'ch papurau enwebu cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau eu gwirio'n anffurfiol ac er mwyn rhoi digon o amser ichi gyflwyno papurau enwebu newydd os digwydd bod gwallau yn eich set gyntaf.
- 1.25 Cyhoeddir yr hysbysiad o etholiad 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan hwyraf a bydd hwnnw'n nodi'r dyddiad cynharaf y cewch chi gyflwyno'ch papurau enwebu. Gan amlaf, cyhoeddir yr hysbysiad o etholiad ar wefan yr awdurdod lleol.
- 1.26 Fel rheol, dim ond yn ystod oriau swyddfa arferol y caiff rhywun gyflwyno papurau enwebu. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau'r union fanylion ar yr hysbysiad etholiad swyddogol gan ddweud pa bryd ac ymhle y cewch eu cyflwyno.
- 1.27 Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau cyn gynted ag y bo modd i gael gwybod pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflwyno papurau enwebu. Byddwch yn gallu cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau drwy eich swyddfa etholiadau leol. Mae'r manylion cysylltu ar ein gwefan, [www.fymhleidlaisi.co.uk](http://www.fymhleidlaisi.co.uk)
- 1.28 Ar ôl ichi gyflwyno'ch papurau enwebu, bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad atoch i roi gwybod ichi a yw eich enwebiad yn ddilys ai peidio.
- 1.29 Ar ôl ichi gyflwyno'ch papurau enwebu, os newidiwch chi'ch meddwl gan benderfynu nad ydych chi am sefyll etholiad rhagor, fe gewch chi dynnu eich enw yn ôl, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. I gael gwybod rhagor am dynnu'ch enw yn ôl, gweler isod.

# 10

## Tynnu'ch enw yn ôl fel ymgeisydd

1.30 Cewch dynnu'ch enw yn ôl fel ymgeisydd drwy lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu enwau yn ôl, a rhaid i un person arall dystio i hynny. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ynghylch pwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond rhaid iddo gael ei ddanfon â llaw. Rhaid i'ch tyst lofnodi'r hysbysiad hefyd. Mae'n bosibl cael [hysbysiad tynnu enwau yn ôl](#) gan y Swyddog Canlyniadau lleol neu fe allwch ei gael oddi ar ein gwefan.

1.31 Os ydych tu allan i'r DU am am dynnu eich enw yn ôl, gall eich cynigwr lofnodio'r hysbysiad tynnu yn ôl ar eich rhan ac mae'n rhaid cael datganiad ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan eich cynigydd yn cadarnhau eich absenoldeb i gydfynd â'r hysbysiad tynnu yn ôl. Os ydych tu allan i'r DU ac yn sefyll wedi'ch enwebu gan fwy nag un ffurflen enwebu, dylech siarad â'r Swyddog Enwebu os ydych am dynnu yn ôl gan bod rheolau arbennig yn berthnasol yn yr achos yma.

1.32 Rhaid cyflwyno'r hysbysiad tynnu enwau yn ôl erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny (h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais). Ar ôl y dyddiad cau hwnnw, nid oes modd tynnu enwau yn ôl o'r etholiad, a bydd eich enw'n ymddangos ar y papur pleidleisio. Os na fydd neb yn sefyll yn eich erbyn, datgenir ichi gael eich ethol.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau?

1.33 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyhoeddi datganiad yn rhestru'r sawl a enwebwyd ar gyfer pob ward erbyn 4pm ar y 18<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Bydd y datganiad yn cynnwys:

- enwau llawn pob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys neu'r enwau a ddefnyddir yn gyffredin ganddynt, fel sy'n berthnasol.

- enwau ymgeiswyr nad ydynt yn ymgeiswyr enwebedig rhagor os bydd rhai felly (h.y. ymgeiswyr annilys ac ymgeiswyr sydd wedi tynnu eu henwau yn ôl), gan ddweud pam nad ydynt yn sefyll rhagor.
- cyfeiriad pob ymgeisydd
- disgrifiad o bob ymgeisydd (os oes un)

## Cael eich enwebu'n ddilys mewn mwy nag un ward

1.34 Os ydych chi wedi cael eich enwebu'n ddilys mewn mwy nag un ward yn yr un awdurdod lleol, rhaid ichi dynnu'ch enw yn ôl o bob ward ac eithrio un cyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwau yn ôl (h.y. erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais). Os na fyddwch chi'n tynnu'ch enw yn ôl o bob ward ac eithrio un, tybir eich bod wedi tynnu'ch enw yn ôl o bob un o'r wardiau hynny.

## Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill

1.35 Ar ôl i'r enwebiadau gau a than y diwrnod cyn yr etholiad, caiff rhywun archwilio papurau enwebu sydd wedi'u cyflwyno a hynny yn ystod oriau swyddfa arferol. Caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud copi ohonynt.

## Ai etholiad a ymleddir ynteu etholiad diwrthwynebiad?

1.36 Ar ôl i'r enwebiadau gau, bydd y Swyddog Canlyniadau yn penderfynu a oes angen cynnal pleidlais yn y wardiau hynny lle y trefnwyd etholiad. Os oes mwy o ymgeiswyr nag sydd o seddi yn y ward ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwau ôl, cynhelir etholiad.

1.37 Serch hynny, ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwau yn ôl, os bydd llai o ymgeiswyr wedi'u henwebu'n ddilys nag sydd o seddi i'w llenwi yn y ward, neu os bydd nifer yr ymgeiswyr a nifer y seddi'n gyfartal, datgenir bod yr ymgeiswyr hynny wedi'u hethol.

1.38 O dan yr amodau hyn, bydd y Swyddog Canlyniadau yn datgan bod yr ymgeiswyr hynny wedi'u hethol i'r cyngor cyn

Os caiff ymgeiswyr eu hethol mewn etholiad diwrthwynebiad, mae'n dal yn rhaid iddynt gyflwyno datganiad ynglŷn â'u gwariant yn yr etholiad.

Mae rhagor o fanylion am hyn yn [Rhan 3 Gwariant a rhoddion](#).

Mae rhagor o wybodaeth ar gymryd swydd etholedig yn [Rhan 6: ar ôl datgan y canlyniad](#).

# 12

gynted ag y bo modd ac yn hysbysu'r cyhoedd ynglŷn ag enwau'r rheini y datganwyd iddynt gael eu hethol.

## Penodi eich asiant etholiad ac asiantiaid eraill

1.39 Yr asiant etholiad yw'r sawl sy'n gyfrifol am reoli ymgyrch eich etholiad yn briodol, ac, yn benodol, am reoli trefniadau ariannol yr ymgyrch honno. Rhaid ichi gael asiant etholiad. Os na wnewch chi benodi asiant, chi'ch hun fydd yr asiant.

1.40 Ar ôl penodi asiant etholiad, dim ond yr asiant hwnnw gaiff dalu am gostau'r etholiad.

1.41 Cewch benodi asiantiaid eraill hefyd i arsylwi ar y prosesau etholiadol a ganlyn, ac fe fydd gennych chi a'ch asiant etholiad hefyd yr hawl i arsylwi ar y rhain.

- agor pleidleisiau post
- y pleidleisio
- y cyfrif

### Pwy gaiff fod yn asiant etholiad?

1.42 Nid oes angen cymwysterau penodol er mwyn bod yn asiant etholiad ac fe gewch fod yn asiant ichi'ch hun os dymunwch chi.

1.43 Serch hynny, ni chaniateir i'r bobl a ganlyn fod yn asiant etholiad:

- y Swyddog Canlyniadau neu unrhyw aelod o'i staff
- partner neu glerc i'r Swyddog Canlyniadau neu aelod o'i staff.
- unrhyw un nad oes ganddo'r hawl i bleidleisio yn yr etholiad oherwydd adroddiad llys etholiad neu oherwydd euogfarn am arfer llwgr neu anghyfreithlon o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

1.44 Efallai hefyd y bydd gan eich plaid reolau penodol ynglŷn â phwy y cewch chi ei benodi'n asiant etholiadau.

I gael rhagor o wybodaeth ar wariant ymgeiswyr gweler:

[Rhan 3: Gwariant a Rhoddion](#)

## Penodi asiant etholiad

1.45 Oherwydd y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth rôl asiant etholiad, dylech ystyried yn ofalus pwy y byddwch yn ei benodi gan sicrhau ei fod yn deall ei ddyletswyddau.

1.46 Rhaid ichi ddatgan yn ysgrifenedig wrth y Swyddog Canlyniadau, enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa eich asiant etholiad a hynny erbyn 4pm ar y 19<sup>eg</sup> diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Dylech chi a'r asiant lofnodi'r datganiad er mwyn dangos ei fod yn derbyn y penodiad.

1.47 Mae'n bosibl cael ffurflen datganiad gan y Swyddog Canlyniadau neu fe allech chi ddefnyddio'r [ffurflen a gyhoeddir gan y Comisiwn](#). Os na fyddwch chi'n penodi rhywun arall yn asiant ichi erbyn y dyddiad cau, yn ôl y drefn awtomatig, chi fydd eich asiant eich hun.

1.48 Mae'n rhaid i'ch asiant gael cyfeiriad swyddfa y gall unrhyw hysbysiadau cyfreithiol cael ei anfon ac felly mae'n rhaid i'r cyfeiriad fod yn un gorfforol - ni all blychau post ayyb cael eu defnyddio.

1.49 Rhaid i gyfeiriad swyddfa'ch asiant fod:

- yn yr un ardal llywodraeth leol â'r ardal lle y cynhelir yr etholiad; neu
- yn etholaeth neu etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig y mae'r ardal llywodraeth leol yn eu cynnwys, neu
- mewn dosbarth sy'n ffinio ar yr ardal llywodraeth leol, neu
- yn un o siroedd neu fwrdeistrefi sirol Cymru sy'n ffinio ar yr ardal llywodraeth leol, neu
- mewn dosbarth yn Llundain sy'n ffinio ar yr ardal llywodraeth leol.

1.50 Yn aml, cyfeiriad swyddfa'r asiant fydd ei gyfeiriad cartref, ond fe allai fod yn swyddfa'r blaid leol neu'n swyddfa sydd wedi'i sefydlu ar gyfer yr etholiad. Os byddwch chi'n asiant ichi'ch hun, tybir mai cyfeiriad y swyddfa fydd y cyfeiriad a roesoch ar eich ffurflen enwebu. Os yw'r cyfeiriad hwnnw y tu allan i'r ardal a ganiateir, tybir mai cyfeiriad eich cynigydd fydd cyfeiriad y swyddfa (h.y. y llofnodwr cyntaf ar eich ffurflen enwebu).

Mae'n help cynnwys rhif ffôn a chyfeiriad ebost eich asiant etholiad hefyd er mwyn i'r Swyddog Canlyniadau allu cysylltu ag ef/hi'n rhwydd.

Ar gyfer awdurdod unedol, yr ardal unedol yw'r ardal llywodraeth leol. Ar gyfer sir, bwrdeistref sirol, dosbarth neu fwrdeistref, ardal y sir, y fwrdeistref sirol, y dosbarth neu'r fwrdeistref yw'r ardal honno.

# 14

## Diddymu penodiad asiant etholiad

1.51 Cewch ddiddymu penodiad eich asiant etholiad unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl diwrnod yr etholiad, a phenodi rhywun newydd, yn yr un modd ag a ddisgrifir uchod. Os byddwch chi'n diddymu penodiad eich asiant etholiad ac na fyddwch chi'n penodi neb arall, tybir mai chi yw eich asiant etholiad chi'ch hun.

1.52 Os byddwch chi'n asiant ichi'ch hun, cewch ddiddymu eich penodiad eich hun, a phenodi rhywun arall yn asiant ichi.

1.53 Ar ôl i asiant lofnodi ei fod yn derbyn y penodiad, ni all ymddiswyddo a rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol, heblaw eich bod chi'n diddymu'r penodiad.

## Penodi asiantiaid eraill

1.54 Cewch hefyd benodi pobl eraill yn asiantiaid i fynd i weld pleidleisiau post yn cael eu hagor, i fynd i'r gorsafoddedd pleidleisio ac i fod yn bresennol yn y cyfrif.

1.55 Gellir penodi unrhyw un, ac eithrio'r rheini a restrir ym mharagraff **1.43** yn asiant pleidleisiau post, yn asiant gorsaf bleidleisio neu'n asiant y cyfrif. Gellir penodi'r un person yn asiant gorsaf bleidleisio, yn asiant pleidleisiau post neu'n asiant y cyfrif ar gyfer mwy nag un ymgeisydd. Gallwch chi a'ch asiant etholiad hefyd fod yn un o'r asiantiaid hynny'n awtomatig heb fod angen eich penodi'n swyddogol.

1.56 Cewch benodi faint bynnag o asiantiaid ag y dymunwch i fynd i bob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar ran pob ymgeisydd a gaiff fod yn bresennol ar y tro mewn gorsaf bleidleisio. Gellir penodi asiant gorsaf bleidleisio i ymweld â mwy nag un orsaf bleidleisio. Ni chewch benodi mwy na phedwar asiant i fynd i unrhyw un orsaf bleidleisio benodol, neu ba nifer bynnag sy'n fwy na hynny ag y bydd y Swyddog Canlyniadau'n penderfynu ei ganiatáu. Os penodir mwy na'r nifer hwnnw, bydd y Swyddog Canlyniadau yn bwrw coelbren i benderfynu pwy gaiff fynd yno. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawliau chi i fod yn bresennol.

1.57 Bydd y Swyddog Canlyniadau yn dweud wrthyfch faint ar y mwyaf o asiantiaid pleidleisiau post ac asiantiaid y cyfrif y

cewch chi eu penodi. Caniateir i bob ymgeisydd benodi'r un nifer yn union. Yn y cyfrif, heblaw bod amgylchiadau arbennig, ni fydd y nifer o asiantiaid cyfrif a ganiateir ar gyfer pob ymgeisydd yn lla na'r rhif a geir drwy rannu'r nifer o gynorhwywyr y cyfrif (h.y. y staff a gyflogir i gyfrif) gan y nifer o ymgeiswyr.

1.58 Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau am gael penodi'r asiantiaid hyn. Rhaid i'r cais gynnwys enwau a chyfeiriadau'r sawl a benodir. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi'r ffurflenni perthnasol ichi ar gyfer hyn neu mae ffurflenni penodi asiantiaid ar gyfer [pleidleisiau post](#), [gorsafoedd pleidleisio](#) ac ar gyfer [y cyfrif](#) i'w gweld ar wefan y Comisiwn.

1.59 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar ba broses y bwriedir iddynt ymwneud â hi. Rhaid penodi asiantiaid gorsafoedd pleidleisio ac asiantiaid y cyfrif erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan hwyraf. Serch hynny, nid oes ond yn rhaid ichi gyflwyno ffurflenni penodi asiantiaid pleidleisiau post i'r Swyddog Canlyniadau erbyn yr adeg a bennwyd ar gyfer agor y pleidleisiau post hynny. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd ichi cyn dechrau agor pob sesiwn pleidleisiau post.

1.60 Os bydd asiant yn marw neu os na all weithredu, cewch benodi asiant arall yn ei le drwy gyflwyno'r ffurflen benodi berthnasol i'r Swyddog Canlyniadau. O dan amgylchiadau fel hyn, rhaid penodi rhywun newydd yn ddi-oed.

1.61 Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y caiff asiantiaid ei wneud a'r hyn na chânt ei wneud ac am yr hyn y gallant ddisgwyl ei weld mewn sesiwn agor pleidleisiau post, yn y gorsafoedd pleidleisio ac yn y cyfrif, i'w gweld yn [Rhan 5: Eich hawl i fod yn bresennol mewn digwyddiadau etholiadol allweddol](#).

## Marwolaeth ymgeisydd

1.62 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler paragraff **1.78** am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y bydd hyn yn effeithio ar yr etholiad.

# 16

## Gwybodaeth atodol

### Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin

1.63 Os byddwch chi gan amlaf yn defnyddio enw gwahanol i'ch enw go iawn, cewch ofyn am gael defnyddio'r enw(au) a ddefnyddir gennych yn gyffredin yn lle eich enw go iawn. . Er enghraifft, efallai fod pobl yn eich adnabod fel 'Andy', yn hytrach na'ch enw cyntaf llawn sef 'Andrew'. Yn yr achos hwnnw, gallwch ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin ar y papur enwebu, os byddai'n well gyda chi i'r enw yna ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.64 Fodd bynnag ni allwch ddefnyddio'ch enw cyntaf fel enw a ddefnyddir yn gyffredin fel mai dim ond eich enw cyntaf a'ch cyfenw sy'n ymddangos ar y papur pleidleisio, ac felly'n eithrio eich enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn glir mai enw a ddefnyddir yn gyffredin yw un sy'n wahanol o unrhyw enw ragenw neu gyfenw arall sydd gan yr ymgeisydd. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio rhagenw yn ei ffurf wreiddiol fel enw a ddefnyddir yn gyffredin. Os ydych am ddefnyddio rhagenw a/neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, yna mae'n rhaid i'r rhain fod yn wahanol i'ch enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith na John Smith fel ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, er byddai'n gallu defnyddio Andy Smith (os caiff ei adnabod fel Andy yn gyffredin).

1.65 Gallwch wneud cais i ddefnyddio rhagenw a ddefnyddir yn gyffredin, cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, neu'r ddau

1.66 Fe gewch hefyd ddefnyddio llythrennau cyntaf fel rhan o'r enw a ddefnyddir yn gyffredin gennych os mai wrth yr enw hwnnw y bydd pobl yn eich adnabod fel rheol.

1.67 Byddai'r enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin gennych yn ymddangos ar y canlynol:

- y datganiad ynglŷn â'r sawl a enwebwyd a'r hysbysiad o etholiad;
- y papurau pleidleisio

1.68 Ni fydd y Swyddog Canlyniadau cyn caniatáu enw a ddefnyddir yn gyffredin os yw'n credu bod yr enw a ddefnyddir yn gyffredin yn debygol o gamarwain neu o ddrysu'r etholwyr, neu sy'n aflednais neu'n sarhaus. Os nad yw'r enw(au) yn rhai a ganiateir, bydd y Swyddog Canlyniadau yn ysgrifennu atoch gan ddweud pam y cafodd yr enw(au) ei/eu gwrthod. O dan yr amgylchiadau hynny, defnyddir eich enw go iawn yn eu lle.

1.69 Os gadewir y blwch ar gyfer enw cyntaf neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin yn wag ar y papur enwebu, yna, eich enw cyntaf neu'ch cyfenw go iawn, a dibynnu ar ba un o'r bylchau hynny a adawyd yn wag.

1.70 Mae'n drosedd rhoi datganiad anwir ar eich ffurflen enwebu. Felly, os dewiswch roi enw a ddefnyddir gennych yn gyffredin, rhaid ichi sicrhau bod yr enw cyntaf neu'r cyfenw hwnnw yn un sy'n cael ei ddefnyddio gennych fel rheol.

## Llofnodion llofnodwyr

1.71 Rhaid llofnodi pob ffurflen enwebu gan 10 etholwr sydd wedi'u cofrestru yn y ward. Rhaid i'r etholwyr fod o oed pleidleisio ac ar y gofrestr sydd mewn grym ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o etholiad.

1.72 Bydd y ddau etholwr cyntaf yn llofnodi ac yn argraffu eu henwau, yn gynigydd ac yn eilydd, a bydd yr wyth sy'n weddill yn gefnogwyr.

1.73 Rhaid rhoi rhif etholwr pob llofnodwr, fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol, yn ogystal â rhifau neu lythrennau unigryw'r rhanbarth pleidleisio, ar y ffurflen enwebu.

I gael gwybod sut mae cael gafael ar y gofrestr etholiadol, gweler:

[Rhan 4: Yr Ymgyrch](#)

# 18

Fel rheol, bydd rhifau/llythrennau unigryw'r rhanbarth pleidleisio i'w gweld ar du blaen y gofrestr. Bydd y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ill dau'n gallu'ch cynghori ynglŷn â phatrwm y gofrestr.

1.74 Bydd gennych yr hawl i gael copi am ddim o gofrestr etholiadol y ward yr ydych chi'n sefyll etholiad ynddi. Dylech ei defnyddio i sicrhau bod eich ffurflen enwebu'n gywir o ran y llofnodwyr.

1.75 Ni chaiff yr un etholwr lofnodi mwy o ffurflenni enwebu nag sydd o leoedd gweigion. Er enghraifft, os oes dau le gwag yn y ward, caiff etholwr lofnodi ffurflenni enwebu hyd at ddau ymgeisydd yn y ward honno. Os bydd tri ymgeisydd yn cyflwyno ffurflenni enwebu sydd wedi'u llofnodi gan yr un person, derbynnir y ddwy a gyflwynwyd gyntaf, ond bydd y drydedd yn annilys. Felly, cyn gofyn i lofnodwyr lofnodi eich ffurflen, dylech bob tro holi a ydynt eisoes wedi llofnodi ffurflen rhywun arall.

1.76 Os bydd ffurflen enwebu'n cynnwys llofnod mwy na 10 llofnodwr, dim ond y deg cyntaf a dderbynnir. Os bydd unrhyw un o'r deg llofnodwr cyntaf yn annilys, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau gymryd bod y ffurflen enwebu'n annilys er bod y ffurflen yn cynnwys mwy na 10.

1.77 Ni ddylid newid ffurflenni enwebu ar ôl eu llofnodi. Dylech lenwi'ch holl fanylion cyn ichi wahodd neb i lofnodi'ch enwebiad. Ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau dderbyn ffurflen enwebu'n ffurfiol, nid oes modd tynnu llofnod yn ôl.

## Marwolaeth ymgeisydd

1.78 Os hysbysir y Swyddog Canlyniadau am farwolaeth ymgeisydd yn ystod ymgyrch yr etholiad neu hyd yn oed ar ddiwrnod yr etholiad ei hun (ond cyn cyhoeddi'r canlyniad), caiff yr etholiad ei chanslo.

1.79 O dan amgylchiadau fel hyn, bydd y Swyddog Canlyniadau'n gorchymyn cynnal etholiad newydd i lenwi'r lle gwag. Cynhelir yr etholiad newydd o fewn 35 diwrnod gwaith i'r diwrnod a bennwyd ar gyfer yr etholiad cyntaf. Os bydd

Efallai y bydd rhai etholwyr ar y gofrestr wedi cofrestru yn ddiennw oherwydd bod bygythiad i'w diogelwch.

Ni chaiff etholwyr sydd wedi cofrestru yn ddiennw lofnodi ffurflenni enwebu.

Dangosir etholwyr diennw ar y gofrestr drwy nodi eu rhif pleidleisio yn unig a'r llythyren 'N' (yn hytrach na'u henw a'u cyfeiriad).

ymgeiswyr eisoes wedi'u henwebu'n ddilys, ni fydd yn rhaid enwebu'r rheini eto.

1.80 Os bydd un o'ch cydymgeiswyr yn marw yn ystod yr ymgyrch, fe gewch ragor o ganllawiau gan y Swyddog Canlyniadau.

1.81 Os bydd ymgeisydd sydd eisoes wedi'i ethol yn marw ar ôl cyhoeddi'r canlyniad, bydd angen cynnal isetholiad er mwyn llenwi'r lle gwag.